# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## Gradd Sylfaen Troseddeg



**Yn gryno**

Bydd y cwrs hwn yn rhoi sylfaen ymarferol ac academaidd gryf yn agweddau gwahanol maes Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol. Os hoffech chi astudio trosedd a'r system cyfiawnder troseddol, mae'r rhaglen Gradd Sylfaen mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol yn berffaith i chi.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Rydych chi'n dyheu am weithio ym meysydd trosedd, troseddeg a chyfiawnder troseddol

... Rydych chi'n gweithio'n dda dan bwysau

... Hoffech chi ennill sgiliau ymarferol a sgiliau damcaniaethol

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gael mynediad i'r cwrs, bydd angen o leiaf tri chymhwyster TGAU, gradd C neu'n uwch, gan

gynnyws Mathemateg/Mathemateg Rhifedd ac Iaith Saesneg (neu gyfwerth), yn ogystal â:

48 o bwyntiau UCAS – amcangyfrifydd tariff UCAS
https://www.ucas.com/ucas/tariff-calculator
Neu raglen Mynediad i Addysg Uwch gan ennill Diploma Pasio a 45 o farciau pasio

Sylwer, os nad ydych chi'n bodloni'r meini prawf graddau, efallai y caiff oedran a phrofiad ei ystyried.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae'r cwrs hwn yn gymhwyster gwerthfawr os hoffech chi ddilyn gyrfa yn y gwasanaeth sifil, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaethau carchar a diogelwch neu wasanaethau cymunedol neu gymdeithasol.

Gallwch chi hefyd symud ymlaen i flwyddyn olaf y cwrs gradd BA (Anrh.) mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol ym Mhrifysgol De Cymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cyflwynir y cwrs hwn dros ddeuddydd ac mae'n rhyddfraint gan Brifysgol De Cymru (yn amodol ar ddilysiad).